

# MAGES

## Mental Wellbeing in Adolescence: Genes and Environment Study

### Taflen Wybodaeth i Rieni Cadwch y copi hwn



## Lles Meddyliol Pobl Ifanc: Astudiaeth Genynnau a'r Amgylchedd (MAGES)

Rydym yn ymchwilyr o Brifysgol Caerdydd a gwahoddwn eich plentyn i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil newydd. Cyn i chi benderfynu a ydych am roi eich caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall diben cynnal yr astudiaeth a beth fydd yn digwydd. Cymerwch cyn hired ag y bydd ei angen arnoch i ddarllen y wybodaeth hon yn ofalus a'i thrafod gydag eraill os ydych yn dymuno gwneud hynny. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes rhywbeth yn aneglur, neu os hoffech ragor o wybodaeth. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

### Beth yw diben yr astudiaeth?

Mae lles meddyliol yn eithriadol o bwysig. Mae'n galluogi plant i gyflawni eu llawn potensial yn yr ysgol, mae'n gysylltiedig â pherthnasau gwell gyda ffrindiau a theulu, ac mae'n helpu i hwyluso iechyd gwell wrth i blant dyfu'n hŷn.

Mae llawer o blant yn wynebu rhywfaint o anawsterau iechyd meddwl o bryd i'w gilydd. Amcangyfrifir bod 1 o bob 5 person ifanc yn dioddef o broblemau fel iselder neu orbryder. Gall problemau iechyd meddwl effeithio ar addysg, perthnasoedd a lles pobl ifanc.

Mae ffactorau risg genetig ac amgylcheddol gyda'i gilydd yn cyfrannu at ddatblygiad problemau iechyd meddwl. Mae ffactorau amddiffynnol, megis cael ffrindiau, teulu ac athrawon cefnogol yn helpu i hyrwyddo iechyd meddwl gwell.

Mae bron i bob astudiaeth enetig am iechyd meddwl yn seiliedig ar oedolion, er bod problemau iechyd meddwl fel arfer yn dechrau ymhlith plant a phobl ifanc. Ein bod yw deall sut mae ffactorau risg genetig yn cael effaith ar ddatblygiad problemau iechyd meddwl. Mae hyn yn bwysig oherwydd y bydd yn galluogi ymchwilyr i ddeall yn well sut yn union y mae problemau iechyd meddwl yn datblygu, pa ffactorau risg sy'n bwysig ac a oes ffactorau amddiffynnol sy'n gallu gwella iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc.

I gyflawni hyn, byddai angen i ymchwilyr gasglu samplau DNA gan filoedd ar filoedd o bobl ifanc. Un ffordd y gallem wneud hyn yw casglu data gan blant mewn ysgolion uwchradd. Ein nod yn y prosiect hwn yw gweld a yw hyn yn ddichonadwy. Felly, nod yr astudiaeth hon yw:

- 1) archwilio safbwyntiau rhieni, athrawon a phobl ifanc am nodau a dulliau gweithredu'r gwaith ymchwil hwn;
- 2) profi a yw'n ymarferol casglu samplau o boer at ddibenion dadansoddi DNA plant mewn ysgolion;
- 3) archwilio a fyddai ansawdd y samplau a gesglir yn ddigon da i ddadansoddi DNA;
- 4) cynnal gwaith dadansoddi DNA ar y samplau o boer mewn grwpiau;
- 5) cysylltu samplau DNA â gwybodaeth a gasglwyd gan y GIG a sefydliadau cyhoeddus eraill (e.e. cofnodion iechyd ac addysg); a

- 6) chysylltu samplau DNA â data am les a gasglwyd fel rhan o arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

### **Pam mae fy mhlentyn wedi'i ddewis?**

Gwahoddwyd eich plentyn i gymryd rhan oherwydd ei fod ym mlwyddyn 7 neu flwyddyn 8. Mae ysgol eich plentyn yn rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) ac mae hi wedi rhoi ei chaniatâd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon o ddichonoldeb.

### **A oes rhaid i fy mhlentyn gymryd rhan?**

Eich dewis chi a'ch plentyn yn gyfan gwbl ydyw p'un ai hoffech iddo gymryd rhan ai peidio. Os ydych chi a'ch plentyn yn cytuno i gymryd rhan yna bydd gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Caiff eich plentyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth hon ar unrhyw adeg heb roi rheswm.

### **Beth mae'r astudiaeth yn ei gynnwys os yw fy mhlentyn yn cymryd rhan?**

Os yw eich plentyn yn fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth yna byddwn yn rhoi tiwb plastig iddo ac yn gofyn iddo roi sampl fach o boer (tua llond llwy de). Ni fydd y broses o gasglu'r sampl yn achosi unrhyw anghysur i'ch plentyn ac ni fydd yn cymryd llawer o amser o gwbl. Gofynnir i'ch plentyn beidio â bwyta nac yfed unrhyw beth am 30 munud cyn rhoi'r sampl oherwydd gall hyn effeithio ar ansawdd y DNA yn y poer. Gyda'ch caniatâd chi, caiff y samplau hyn eu storio a'u defnyddio ar gyfer darpar-waith ymchwil a gymeradwywyd yn foesebol a fydd yn archwilio'r ffactorau risg genetig ac amgylcheddol a'r ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Hoffem hefyd ofyn eich caniatâd i gysylltu'r sampl a roddir gan eich plentyn â'r canlynol mewn modd diogel:

- 1) Gwybodaeth a gasglwyd gan y GIG a sefydliadau cyhoeddus eraill (e.e. cofnodion iechyd ac addysg); a
- 2) Gwybodaeth am iechyd a lles a gasglwyd fel rhan o arolwg sy'n cael eu cwblhau mewn ysgolion drwy holiaduron, er enghraifft arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN).

### **At ba ddiben y caiff sampl o boer fy mhlentyn ei ddefnyddio?**

Caiff y samplau o boer eu profi i wneud yn siŵr bod eu hansawdd yn ddigon da i brofi eu DNA. Bydd ein hymchwilyr yn defnyddio'r samplau a'r wybodaeth a roddir i wella ein dealltwriaeth o iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc. Mae'r samplau hyn o boer yn werthfawr ar gyfer gwaith ymchwil ar hyn o bryd, a gallant ein helpu i ateb cwestiynau na allwn eu harchwilio gyda thechnoleg bresennol pan fydd datblygiadau ym maes technoleg. O ganlyniad, gall y samplau rydym yn eu casglu gael eu defnyddio gan ymchwilyr yn y dyfodol, yn y DU a thramor, sy'n cynnal gwaith ymchwil a gymeradwywyd yn foesebol a allai gynnwys dadansoddi DNA. Bydd sampl eich plentyn yn ddiennw ac ni fydd yn cynnwys ei

enw. Bydd angen i ymchwilwyr gael caniatâd gan Brifysgol Caerdydd i ddefnyddio sampl eich plentyn ar gyfer eu gwaith nhw.

### **A fyddwch chi'n dadansoddi DNA fy mhlentyn?**

Byddwn, byddwn yn dadansoddi DNA yn rhan o'r astudiaeth hon. Mae'r mathau o ddadansoddiadau y byddwn yn eu cynnal at ddibenion ymchwil yn unig. Felly, ni fydd modd i ni roi unrhyw adborth unigol am DNA a gwybodaeth gysylltiedig am eich plentyn i unrhyw un.

Caiff unrhyw samplau nad ydynt yn cael eu defnyddio eu taflu yn unol â gweithdrefnau a gymeradwywyd yn lleol ym Mhrifysgol Caerdydd os byddwch yn gofyn am hynny. Caiff unrhyw ganlyniadau a gynhyrchwyd cyn tynnu'r caniatâd hwn yn ôl eu defnyddio yn yr astudiaeth hon o hyd.

### **Pam rydych chi'n gofyn am fy nghaniatâd i gysylltu sampl fy mhlentyn â chofnodion eraill?**

Drwy roi eich caniatâd i gysylltu gwybodaeth enetig am eich plentyn â chofnodion eraill, gallwn adeiladu darlun llawer mwy cyflawn, ac yn y pendraw, bydd yn helpu i wella iechyd a lles pobl ifanc ledled Cymru.

Rydym yn bwriadu archwilio'r cysylltiadau rhwng genynnau, yr amgylchedd ac iechyd a lles plant. I wneud hyn, byddem yn defnyddio proses o'r enw 'cysylltu data' i gysylltu data arall a gesglir yn rheolaidd â gwybodaeth enetig eich plentyn. Byddwn yn gwneud hyn mewn modd diogel a dienw. Mae'r data arall yn dod o sefydliadau megis ysgolion a'r GIG, sy'n casglu gwybodaeth yn rheolaidd megis arolygon o fyfyrwyr ysgolion, graddau arholiadau a rhesymau dros ymweld ag ysbyty. Gyda'ch caniatâd chi, efallai y caiff y sampl DNA y mae eich plentyn yn ei rhoi ar gyfer yr astudiaeth hon ei chysylltu'n **ddiogel ac yn ddienw** â gwybodaeth arall a gesglir yn rheolaidd megis y rhain. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda banc data'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe.

Caiff yr holl ddata a gysylltir ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (2018) a phrosesau llywodraethu'r Brifysgol. Bydd y gallu i gysylltu sampl eich plentyn â data arall am iechyd ac addysg yn golygu y bydd ei sampl hyd yn oed yn fwy gwerthfawr o ran yr hyn y gallwn ei ddysgu drwy'r gwaith ymchwil hwn, a'i botensial i helpu pobl yn y dyfodol.

### **Sut fydddech chi'n cysylltu gwybodaeth enetig fy mhlentyn â chofnodion eraill?**

I gysylltu sampl enetig eich plentyn â data arall o sefydliadau cyhoeddus (e.e. y GIG), byddwn yn gofyn am enw, dyddiad geni a chôd post eich plentyn. Defnyddir y wybodaeth hon i greu ffeil cysylltu dienw yn y lle cyntaf, a fydd yn ein galluogi i gysylltu gwybodaeth wahanol gyda'i gilydd. **Ni fydd** y ffeil ddienw hon yn cynnwys unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy yw eich plentyn, felly ni fydd unrhyw ymchwilydd a fydd yn defnyddio'r ffeil yn y dyfodol yn gwybod data pwy y mae'n edrych arno. Bydd angen i ymchwilwyr gael caniatâd i gael gafael ar y data dienw hwn, a chânt ganiatâd i edrych ar y wybodaeth sydd ei

hangen arnynt ar gyfer eu hastudiaeth benodol yn unig (er enghraifft, os yw eich plentyn erioed wedi ymweld â meddyg teulu ar gyfer gorbryder neu iselder).

### **Os ydw i'n cytuno i'm mhlentyn roi sampl o boer, a fydd yn cael ei gysylltu'n awtomatig â gwybodaeth arall?**

Na fydd. Gallwch ddewis pa rannau o'r astudiaeth yr hoffech i'ch plentyn gymryd rhan ynddynt. Gallwch gytuno i'ch plentyn roi sampl DNA, ond i beidio â chael ei sampl wedi'i chysylltu â data arall. Neu, gallwch ddewis i'ch plentyn gymryd rhan yn nwy ran yr astudiaeth drwy gytuno iddo roi sampl o boer, a'n galluogi ni i gysylltu ei sampl â gwybodaeth arall a gedwir yn gyhoeddus (e.e. cofnodion y GIG a chofnodion ysgolion).

### **Beth sy'n digwydd os ydw i a'm mhlentyn yn anghytuno o ran cymryd rhan?**

Caiff eich plentyn ei gynnwys yn yr astudiaeth hon os roddir caniatâd rhieni a bod eich plentyn hefyd yn cytuno. Ni fydd yn gallu cymryd rhan os nad yw ef neu os nad ydych chi'n dymuno.

### **A fydd data am fy mhlentyn yn cael ei gadw'n gyfrinachol?**

Caiff yr holl wybodaeth a gesglir gan eich plentyn yn ystod yr astudiaeth hon ei chadw'n gwbl gyfrinachol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (2018). Caiff unrhyw wybodaeth am hunaniaeth eich plentyn a gesglir o'r gwaith ymchwil hwn ei storio'n ddiogel (rydym yn defnyddio rhifau adnabod yn hytrach nag enwau) ac ar wahân i unrhyw ddata a gesglir gan eich plentyn. Dim ond tîm yr astudiaeth fydd yn cael mynediad at ddata adnabod eich plentyn. Mae yna gyfreithiau llym sy'n diogelu preifatrwydd eich plentyn ar bob cam. Ni chaiff eich enw na'ch gwybodaeth adnabod eu trosglwyddo i unrhyw un.

I ddefnyddio'r wybodaeth bwysig rydych yn ei rhoi yn y ffordd orau, byddwn yn rhannu data (a fydd yn gwbl ddiennw) gydag ymchwilwyr cymwys mewn prifysgolion eraill. Ni roddir unrhyw wybodaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl i bobl eraill wybod enw neu hunaniaeth eich plentyn mewn unrhyw ffordd o unrhyw rai o'r adroddiadau gwyddonol rydym yn eu cyhoeddi.

### **Beth sy'n digwydd i'r data a'r samplau ar ddiwedd yr astudiaeth?**

Caiff yr holl ddata ei wneud yn ddiennw, sy'n golygu y byddwn yn dileu unrhyw ddynodwyr y gellir eu defnyddio i adnabod eich plentyn o'r data. Gellir cadw'r data diennw hwn am byth neu ei ddadansoddi i gefnogi'r gwaith ymchwil. Cedwir data personol arall y gallwn ei gasglu, megis eich caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan yn yr astudiaeth hon am 20 mlynedd, fel y nodir ym mholisi'r Cyngor Ymchwil Feddygol am gadw data.

Bydd sampl DNA eich plentyn yn ein galluogi ni i ddysgu am y cysylltiad rhwng genynnau, yr amgylchedd a lles meddyliol fel bod modd i ni helpu pobl ifanc yn y dyfodol. Felly, ar ddiwedd yr astudiaeth, bydd Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg Niwroseiciatrig a Genomeg, Prifysgol Caerdydd, yn cadw'r samplau DNA i'w defnyddio ar

gyfer gwaith ymchwil a gymeradwywyd yn foesebol yn y dyfodol. Mae hyn yn ein galluogi ni i ddefnyddio technegau a thechnolegau newydd a ddatblygir i barhau â'r gwaith ymchwil pwysig hwn.

### **Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?**

Os hoffech chi a'ch plentyn gymryd rhan, yna bydd yn rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen ganiatâd i'r ymchwilwyr. Bydd yn rhaid i'ch plentyn gwblhau ffurflen ganiatâd i ddweud y byddai'n hoffi cymryd rhan cyn iddo roi ei sampl.

### **A oes unrhyw risgiau?**

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r ymchwil hon.

### **Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth ymchwil?**

Caiff canlyniadau'r astudiaeth eu hysgrifennu yn eu cyfanrwydd mewn papurau gwyddonol. Caiff y canlyniadau eu cyflwyno i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl pobl ifanc. Ni fyddai unrhyw un yn gallu adnabod eich plentyn mewn unrhyw ffordd o'r canlyniadau hyn – nid ydym yn cynnwys enwau na rhifau adnabod y plant yn yr adroddiadau na'r cyflwyniadau hyn.

### **Beth os ydw i'n penderfynu fy mod i eisiau tynnu fy nghaniatâd yn ôl?**

Mae eich plentyn yn cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn hollol wirfoddol, a chaiff ef/cewch chi dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Cysylltwch â ni i roi gwybod os ydych chi'n dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

Pan fyddwch yn tynnu'ch caniatâd yn ôl, byddwn yn dileu eich manylion o'r gronfa ddata. Caiff y samplau a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau a gynhyrchwyd cyn tynnu'r caniatâd hwn yn ôl eu defnyddio yn yr astudiaeth hon o hyd.

### **Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil hon?**

Trefnir yr ymchwil gan yr Athro Stephan Collishaw o'r Isadran Meddygaeth Seicolegol a'r Niwrowyddorau Clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff y gwaith ymchwil ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar hyn o bryd.

### **Diogelu Data**

Byddwn yn prosesu data'n unol â Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Pan fyddwch yn rhoi eich data personol ar gyfer yr ymchwil hon byddwn yn ei phrosesu ar y sail bod gwneud hynny yn angenrheidiol ar gyfer ein tasg gyhoeddus at

ddibenion ymchwil hanesyddol a gwyddonol yn unol â'r camau diogelu angenrheidiol, a'i fod o ddiddordeb cyhoeddus.

Mae gennych nifer o hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data. Sylwer bod eich hawliau i gael mynediad at eich data personol, ei newid neu ei symud, yn gyfyngedig, gan fod angen inni reoli eich gwybodaeth personol mewn ffyrdd penodol er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn ddibynadwy ac yn gywir.

Prifysgol Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef drwy e-bostio [inforequest@caerdydd.ac.uk](mailto:inforequest@caerdydd.ac.uk). Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data ar wefan Prifysgol Caerdydd:

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection>

### **Pwy sydd wedi adolygu a chymeradwyo'r astudiaeth?**

Mae angen i bwyllgor moeseg adolygu pob prosiect ymchwil er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn modd moesegol. Adolygwyd y prosiect hwn gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y cawsoch eich trin neu ar rywbeth a ddigwyddodd yn ystod y prosiect ymchwil. Yn y lle cyntaf, cysylltwch ag arweinydd y prosiect ymchwil:

*Yr Athro Stephan Collishaw*

Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg Niwroseiciatrig a Genomeg

Prifysgol Caerdydd

Adeilad Hadyn Ellis

Heol Maendy

Caerdydd

CF24 4HQ

**Ffôn:** 029 20 688436

**Ebost:** [CollishawS@caerdydd.ac.uk](mailto:CollishawS@caerdydd.ac.uk)

Ar ôl hyn, os nad ydych yn fodlon o hyd, gallwch gael cyngor o ran sut i gysylltu â'r Pwyllgor Moeseg perthnasol.

### **Rhagor o wybodaeth ac ymholiadau**

Os oes gennych chi neu eich plentyn unrhyw gwestiynau am yr ymchwil hon, cysylltwch â'r tîm ymchwil gan ddefnyddio'r manylion ar y dudalen nesaf.

**Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth**

**Gwefan:** [www.caerdydd.ac.uk/MAGES](http://www.caerdydd.ac.uk/MAGES)

**Ebost:** [MAGES@caerdydd.ac.uk](mailto:MAGES@caerdydd.ac.uk)

**Ffôn:** Sarah Rook (Cynorthwy-ydd ymchwil) 029 20 688392 / Naomi Warne (Cynorthwy-ydd Ymchwil) 029 20 688473

**Post:**

MAGES

Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg Niwroseiciatrig a Genomeg

Prifysgol Caerdydd

Adeilad Hadyn Ellis

Heol Maendy

Caerdydd

CF24 4HQ

**Diolch am ddarllen y wybodaeth hon. Gallwch gadw'r copi hwn. Hoffem ddiolch i chi am ystyried cymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan, a wnewch chi ddychwelyd y ffurflen ganiatâd i rieni yn yr amlen radbost a ddarparwyd.**